Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad o Gynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4521A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mewn achos o dderbyn cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Pam y cynhaliom ni'r archwiliad hwn 4

Ein dyletswyddau archwilio 4

Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn 4

Pam mae cynaliadwyedd ariannol yn bwysig 4

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a sut olwg sydd ar dda 5

Ein dulliau archwilio a phryd y gwnaethom gynnal yr archwiliad 6

Yr hyn a ganfuom 6

Ein hargymhelliad ar gyfer y Cyngor 11

Atodiadau

Atodiad 1 – Cwestiynau archwilio a meini prawf 12

# Adroddiad cryno

## Pam y cynhaliom ni'r archwiliad hwn

### Ein dyletswyddau archwilio

1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, ac mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol fod yn fodlon ei fod wedi gwneud hyn.

2 Gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Gall hefyd lywio astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian o dan adran 41 o Ddeddf 2004, a/neu archwiliad a gynhaliwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

### Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn

3 Rhoi sicrwydd bod gan gynghorau drefniadau priodol i gefnogi eu cynaliadwyedd ariannol.

4 Egluro sefyllfa ariannol cynghorau a'r pwysau a'r risgiau cyllidebol allweddol i'w cynaliadwyedd ariannol.

## Pam mae cynaliadwyedd ariannol yn bwysig

5 Mae cyfuniad o ffactorau, gan gynnwys cost gynyddol darparu gwasanaethau a galw cynyddol am rai gwasanaethau yn rhoi pwysau sylweddol ar gyllid llywodraeth leol.

6 Er gwaethaf y pwysau hyn, mae'n dal yn ofynnol i gynghorau osod cyllideb gytbwys wrth ddarparu nifer o wasanaethau statudol. Mae cynghorau hefyd yn darparu ystod o wasanaethau anstatudol y mae cymunedau'n dibynnu arnynt.

7 Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig bod cynghorau'n datblygu dull strategol o'u cynaliadwyedd ariannol dros y tymor hwy i'w helpu i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio eu hadnoddau.

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a sut olwg sydd ar da[1]

8 Gwnaethom adolygu dull strategol y Cyngor o gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol, ei ddealltwriaeth o'i sefyllfa ariannol bresennol, a'i drefniadau ar gyfer adrodd a goruchwylio ei gynaliadwyedd ariannol. Cyfyngwyd yr archwiliad hwn i ystyriaeth o'r trefniadau y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol. Nid adolygiad o reolaeth ariannol ehangach y Cyngor oedd hwn, na'r penderfyniadau ariannol unigol y mae'r Cyngor wedi'u gwneud neu'n bwriadu eu gwneud.

9 Rydym yn cydnabod y bydd rhai ffactorau a fydd yn effeithio ar gynaliadwyedd ariannol cynghorau y tu hwnt i gwmpas yr archwiliad hwn, gan fod yr archwiliad hwn yn canolbwyntio ar y trefniadau y mae cynghorau'n eu rhoi ar waith. Fodd bynnag, lle gwnaethom nodi materion cyffredin drwy ein gwaith maes sy'n mynd y tu hwnt i'r trefniadau y mae cynghorau wedi'u rhoi ar waith, byddwn yn adrodd ar y rhain yn ein hadroddiad cryno cenedlaethol arfaethedig.

10 Rydym hefyd yn cydnabod yr heriau ariannol digynsail y mae cynghorau wedi'u hwynebu ers blynyddoedd lawer ac maent yn debygol o barhau i'w hwynebu am o leiaf y tymor canolig. Mae hyn yn cynnwys pwysau ariannu'r sector cyhoeddus a ddilynodd yr argyfwng ariannol yn 2008 ac effaith y pandemig ar y pryd a'i ôl-effeithiau parhaus. Yn fwy diweddar mae cynghorau hefyd wedi wynebu gostyngiadau sylweddol mewn termau real mewn pŵer gwario o ganlyniad i'r cynnydd cyflymaf mewn chwyddiant ers degawdau. Ochr yn ochr â'r holl ddigwyddiadau hyn, bu cynnydd sylweddol yn y galw am rai gwasanaethau hefyd, gan gynnwys, er enghraifft, effaith poblogaeth sy'n heneiddio a'r galw cynyddol am rai gwasanaethau. Mae'r ffactorau hyn yn bennaf y tu hwnt i reolaeth unrhyw gyngor unigol.

[1]Wedi'i ddiffinio fel 'beth ddylai fod' yn unol â deddfau neu reoliadau, 'yr hyn a ddisgwylir' yn unol ag arfer gorau, neu 'beth allai fod', o ystyried amodau gwell.

11 Yn erbyn y cefndir tymor hwy hwn o heriau ariannol, bu angen i gynghorau ymateb i heriau mwy diweddar yn gyflym ac rydym yn deall ei bod yn anochel mewn llawer o gynghorau, os nad pob un ohonynt, bod rhai o'r manylion penodol o ran sut y bydd pwysau ariannol yn cael eu taclo dros y tymor canolig yn dal i gael eu penderfynu. Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein barn ar drefniadau ariannol y cyngor, a lle bo'n briodol lle credwn y gellid cryfhau'r rhain i helpu i wella cynaliadwyedd ariannol y cyngor dros y tymor canolig. Dylid edrych ar ein hadroddiad yng nghyd-destun y pwysau ariannol ehangach a thymor hwy hyn.

12 Roedd yr archwiliad yn ceisio ateb y cwestiwn cyffredinol – **Oes gan y Cyngor drefniadau priodol i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol?** Er mwyn gwneud hyn, ein nod oedd ceisio ateb y cwestiynau canlynol:

- A oes gan y Cyngor strategaeth glir ar gyfer ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor?
- A yw strategaeth ariannol y Cyngor yn cael ei chefnogi gan ddealltwriaeth glir o'i sefyllfa ariannol?
- A yw trefniadau adrodd y Cyngor yn cefnogi goruchwylio ei gynaliadwyedd ariannol yn rheolaidd?

13 Mae'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i asesu trefniadau'r Cyngor yn erbyn pob un o'n cwestiynau wedi'u nodi yn **Atodiad 1**. Mae hyn wedi cael ei lywio gan ein gwybodaeth gronnol, yn ogystal â thynnu ar rai cyhoeddiadau a gynhyrchwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).

## Ein dulliau archwilio a phryd y cynhaliom ni’r archwiliad

14 Mae ein canfyddiadau yn seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau a chyfweliadau gyda sampl o gynghorwyr ac uwch swyddogion. Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennym i lywio ein canfyddiadau wedi'i chyfyngu i'r ffynonellau hyn. Gwnaethom y gwaith hwn yn ystod mis Mai a mis Mehefin 2024.

15 Rydym yn ymgymryd â'r gwaith hwn ym mhob un o'r 22 prif gyngor yng Nghymru ac, yn ogystal ag adrodd yn lleol i bob cyngor, rydym hefyd yn bwriadu llunio adroddiad cenedlaethol.

## Yr hyn a ganfuom

16 Canfuwyd gennym yn gyffredinol fod **y Cyngor wedi nodi pwysau ariannol sylweddol ac nad oes ganddo gynllun a gytunwyd i lenwi'r bwlch cyllid eto**. Rydym yn nodi isod pam wnaethom ddod i'r casgliad hwn.

17 **Mae y Cyngor yn eglur ynghylch maint a brys ei heriau ariannol ac mae'n datblygu rhaglen rheoli newid i gydlynu ymagwedd strategol at drawsnewid. Ond nid oes ganddo gynllun eto ar gyfer arbedion digonol i sicrhau ei gynaliadwyedd ariannol tymor canolig.**

18 Mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn heriol iawn i'r Cyngor yn ariannol, gan wneud toriadau sylweddol yn ofynnol i fantoli ei gyllideb. I grynhoi:

19 Arweiniodd nodi gorwariant yn 2022-23 yn hwyr at ddefnydd sylweddol o gronfeydd wrth gefn. Er bod cronfeydd wrth gefn y Cyngor bryd hynny yr un faint â'r rhai cyn pandemig COVID-19, yn gymharol roedd gan y Cyngor bryd hynny y lefel isaf o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel canran o gost net gwasanaethau o holl gynghorau Cymru. Felly, roedd angen i'r Cyngor gyflymu gweithrediad arbedion, gan gynnwys y rhai a nodwyd ar gyfer y dyfodol trwy broses datganiad busnes ar gyfer pob gwasanaeth.

20 Nodwyd bwlch cyllideb posibl sylweddol yn gynnar yn 2023-24 o £23.8 miliwn, gan amcanestyn defnydd pellach o gronfeydd wrth gefn, ond fe'i lliniarwyd gan adolygiad yn ystod y flwyddyn o wariant net gwasanaethau, gan oedi gwariant a defnyddio cyfleoedd incwm untro o fewn cyllidebau corfforaethol. Dynododd adroddiad Alldro Refeniw 2023-24 heb ei archwilio y Cyngor (Mehefin 20214) warged o £0.6 miliwn heb ddefnydd na gynlluniwyd o gronfeydd wrth gefn.

21 Ceir tystiolaeth o'r risg i gyllid y Cyngor hefyd o gronfeydd wrth gefn Ysgolion. Roedd cronfeydd wrth gefn Ysgolion yn uchel yn dilyn cyllid ychwanegol drwy'r pandemig. Fodd bynnag, ar ôl y pandemig mae

cronfeydd wrth gefn ysgolion wedi lleihau o £14.7 miliwn yn 2021-22 i £10.5 miliwn yn 2022-23 ac wedi lleihau ymhellach i £5.3 miliwn ar ddiwedd 2023-24. Mae cyllideb 2024-25 yn lleihau cyllid i ysgolion £5.4 miliwn.

22 Amcanestynodd y Cyngor fwlch cyllid pellach o £22.6 miliwn wrth ddatblygu ei gyllideb ar gyfer 2024-25. Nodwyd rhaglen o arbedion â'r datganiadau busnes gwasanaethau yn darparu'r fframwaith strategol, ond mae gwerth £1.8 miliwn o arbedion yn dal heb eu nodi ac maent yn ofynnol o hyd i fantoli'r gyllideb heb ddefnyddio cronfeydd ariannol wrth gefn. Mae Bwrdd Gweithredol y Cyngor yn bwriadu ystyried cynigion ar gyfer yr arbedion o £1.8 miliwn hyn ym mis Gorffennaf 2024, sydd 5 mis y tu ôl i'w hamserlen eu hunain. Mae'r pwysau ariannol ar y Cyngor wedi cynyddu yn ddiweddar sydd, yn absenoldeb ateb cynaliadwy, yn peryglu cynaliadwyedd ariannol y Cyngor. I ddarparu cynllun wrth gefn yn erbyn y pwysau ariannol hyn, trwy ddisodli cronfa wrth gefn bresennol a glustnodwyd yn flaenorol ar gyfer gwariant cyfalaf, mae'r cyngor wedi creu cronfa wrth gefn ddigwyddiadol o £5 miliwn.

23 Mae uwch swyddogion a'r holl aelodau etholedig wedi bod yn mynd i'r afael â'r heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor. Cynhaliodd y Cyngor sesiynau briffio ar gyfer yr holl aelodau etholedig yn nodi manylion materion allweddol sy'n sail i Gynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor, gweithdai ar gyfer arweinwyr ysgolion ac uwch swyddogion ar gynllunio ariannol. Mae'r gweithgareddau hyn yn ategu'r adrodd cyhoeddus ac wedi sicrhau bod ei arweinwyr yn cael eu hysbysu am ei heriau ariannol ac yn cefnogi proses gwneud penderfyniadau effeithiol.

24 Sefydlodd y Cyngor Fwrdd Newid ac Effeithlonrwydd ym mis Rhagfyr 2023 fel yr ateb ysgogiadol ar gyfer ei gynaliadwyedd ariannol. Dyma ei gylch gorchwyl:

"Ar adeg o anwadalrwydd ac ansicrwydd i ddarparu trosolwg cydgysylltiedig o'r newid trawsnewidiol y bydd ei angen ar y Cyngor i fodloni heriau cyllidebol a darparu lefel ychwanegol o sicrwydd i gynaliadwyedd, pennu a chyflawni strwythur gwasanaethau, cyllideb a Chynllun Cyngor y Cyngor ar gyfer y dyfodol".

Mae'r Bwrdd hwn yn cynnwys uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn bennaf i gynnig arbedion sy'n ofynnol ar gyfer cyllideb 2024-25 a thu hwnt. Yr her i'r Bwrdd hwn i sicrhau'r cydbwysedd anodd o:

- nodi cynigion ar gyfer arbedion ariannol a newid
- asesu'r effaith lawn ar ddefnyddwyr gwasanaeth, cymunedau ehangach
- gyda chronfeydd wrth gefn cyfyngedig i'w fuddsoddi i arbed
- ar gyflymder a chyda brys digonol i fodloni'r heriau ariannol uniongyrchol
- heb ddull strategol wedi'i gytuno i sicrhau cynaliadwyedd ariannol yn y tymor canolig a'r tymor hwy

Er bod y Bwrdd hwn yn sicrhau ymgysylltiad uwch swyddogion a gwleidyddion o ran cynnig arbedion i'w Fwrdd Gweithredol, mae'r Cyngor y tu ôl i'w amserlen ar gyfer dod o hyd i'r £1.8 miliwn o arbedion sy'n weddill sy'n ofynnol i fantoli ei chyllideb yn 2024-25 heb ddefnyddio cronfeydd wrth gefn. Ar adeg ein gwaith maes, roedd y Cyngor newydd benodi staff i gefnogi'r Bwrdd hwn.

Yn 2022-23, gwnaeth y Cyngor rywfaint o ddefnydd na gynlluniwyd o gronfeydd wrth gefn i fantoli ei gyllideb. Oherwydd cronfeydd wrth gefn isel, mae'r Cyngor yn bwriadu osgoi defnyddio cronfeydd wrth gefn i fantoli ei gyllideb yn 2023-24 a thu hwnt trwy arbedion a chronfa wrth gefn ddigwyddiadol yn 2024-25. O ganlyniad, bu pwysau ychwanegol ar nodi arbedion. Mae'r brys parhaus i nodi'r lefel ofynnol o arbedion wedi arwain at wasanaethau yn cynnig arbedion anstrategol[2] o'u meysydd cyllideb. Ni aseswyd yr arbedion anstrategol hyn yn llawn ar gyfer eu heffaith a cheir diffyg asesiadau parhaus tymor hwy ar eu cyfer.

25 Yn hollbwysig, mae'r gwendidau hyn yn golygu nad yw'r Cyngor yn deall effaith tymor hwy pob penderfyniad yn llawn. Gallai hyn gostio mwy yn y tymor hwy neu weithio yn erbyn amcanion corfforaethol, y

[2]Rydym yn defnyddio'r term arbedion anstrategol i ddisgrifio'r arbedion unigol nad oeddent yn rhan o gynllun trawsnewid strategol cyffredinol.

mae'r ddau ohonynt yn peryglu gwerth am arian ehangach y Cyngor. O gymryd dull mwy cadarn, cyflawn a strategol o ymdrin ag arbedion, gall y Cyngor gymryd mwy o sicrwydd o ran lliniaru'r risg hon.

26 Wrth i'r galw am arbedion barhau dros y tymor canolig, mae'r risg o orwario yn uwch, gan gynyddu pwysau ymhellach ar gronfeydd wrth gefn os na chânt eu cyflawni'n llwyddiannus. Mae cyflawni arbedion a gweddnewid ar frys y ffordd y darperir gwasanaethau yn hanfodol i reoli'r risg hon a chefnogi'r Cyngor yn ei gynaliadwyedd ariannol.

27 Mae'r Cyngor wedi adrodd ffigurau alldro heb eu harchwilio a oedd yn golygu yn 2023-24, yn gyfunol, bod Gwariant Gwasanaethau Net y Cyngor (ac eithrio ysgolion) wedi gorwario eu cyllideb £9.3 miliwn (5.69%), ac yn nodedig Gofal Cymdeithasol yn gorwario £11 miliwn (13%) ac Amgylchedd a Thechnegol £2.6 miliwn (6.5%). Mae hyn yn dangos bod y ddarpariaeth o wasanaethau eisoes yn cael trafferth yn ymdrin â phwysau a risgiau allweddol.

28 Mae'r Cyngor yn amcanestyn y bydd ei heriau ariannol yn parhau i'r tymor canolig. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn amcanestyn bylchau pellach yn ei gyllid o £12.6 miliwn yn 2025-26 a £14.7 miliwn yn 2026-27. Nid oes gan y Cyngor gynllun strategol i fynd i'r afael â'r bwlch cyllid ar gyfer 2025-26 ymlaen. Mae strategaeth ariannol eglur, cadarn ac wedi'i chytuno yn bwysig i nodi sut y bydd y Cyngor yn ymateb i bwysau ariannu a ragwelir yn y dyfodol, ac yn benodol sut y bydd y Cyngor yn llenwi ei fwlch cyllid amcanestynedig yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor.

29 Mae'r Cyngor yn amcanestyn y bydd ei heriau ariannol yn parhau i'r tymor canolig. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn amcanestyn bylchau pellach yn ei gyllid o £12.6 miliwn yn 2025-26 a £14.7 miliwn yn 2026-27. Mae'r Cyngor wedi sefydlu'r Bwrdd Newid ac Effeithlonrwydd yn ddiweddar i nodi arbedion strategol, ond prin fu ei gyfleoedd i wneud cynnydd ar adeg ein gwaith maes. Mae strategaeth ariannol eglur, cadarn ac wedi'i chytuno yn bwysig i nodi sut y bydd y Cyngor yn ymateb i bwysau ariannu a ragwelir yn y dyfodol, ac yn benodol sut y bydd y Cyngor yn llenwi ei fwlch cyllid amcanestynedig yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor.

30 Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn cwmpasu 2024-25 i 2026-27. Y flwyddyn ariannol bresennol a dwy flynedd bellach yw

hyn i bob pwrpas. Tra'n cydnabod y potensial ar gyfer mwy o ansicrwydd ar gyfer cynllunio y tu hwnt i ddwy flynedd, bydd cynllunio tymor hwy sy'n ymgorffori meincnodi, tybiaethau rhesymol ac wedi'u seilio ar fodelu galw yn caniatáu dealltwriaeth o ystyriaethau tymor hwy ac yn paratoi ar gyfer dull strategol o newid.

31 **Mae gan y Cyngor drefniadau eglur ar gyfer rheoli ei gyllideb ac arbedion ariannol.**

32 Mae trefniadau adrodd eglur, rheolaidd a thryloyw yn bwysig i alluogi trosolwg effeithiol o sefyllfa ariannol y Cyngor, y camau y mae'n eu cymryd i sicrhau ei gynaliadwyedd ariannol ac effaith hyn ar ei gymunedau lleol.

33 Mae Aelodau yn cael eu diweddaru yn rheolaidd ar gynlluniau a pherfformiad ariannol, yn agored drwy'r Bwrdd Gweithredol a chyfathrebu ychwanegol pellach i bob Aelod. Mae hwn yn welliant i drefniadau ers ein hadroddiad ar dryloywder adrodd ym mis Medi 2022[3].

34 Wrth bennu cyllideb 2024-25, fe wnaeth y Cyngor asesu effaith pob cynnig arbedion unigol ar ei Gynllun Corfforaethol/Blaenoriaethau'r Cyngor. Ond roedd manylder a maint yr ystyriaeth yn gyfyngedig iawn ac ni wnaeth ystyried yn bendant effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth a chymunedau lleol. Fe wnaeth y Cyngor gydnabod y broblem hon ac wedi newid ei fframwaith asesu effaith yn ddiweddar, ond nid oedd unrhyw enghreifftiau ymarferol ar gael ar adeg ein gwaith maes. Mae trefniadau'r Cyngor i reoli ei raglen o arbedion yn darparu i'w arweinwyr uwch fanylion pob cam, cynnydd ar weithrediad ynghyd ag eglurder ar y rhaglen lawn o arbedion.

[3]Llythyr rheolwyr Archwilio Cymru, Medi 2022 – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Trefniadau ar gyfer Rhannu Gwybodaeth Agored Trwy Bwyllgorau

# Ein hargymhelliad ar gyfer y Cyngor

**Arddangosyn 1: ein hargymhelliad ar gyfer y Cyngor**

| Argymhelliad | |
|---|---|
| A1 | Dylai'r Cyngor ymestyn ei gynllunio ariannol y tu hwnt i ddwy flynedd a defnyddio'r allbwn i hysbysu ei raglen o arbedion yn y byrdymor yn ogystal â newidiadau trawsnewidiol hirdymor tuag at gynllun ar gyfer cynaliadwyedd ariannol. |

# Atodiad 1

## Cwestiynau archwilio a meini prawf

**Arddangosyn 2: cwestiwn cyffredinol: A oes gan y Cyngor drefniadau priodol i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol?**

| Cwestiynau Lefel 2 | Meini prawf |
| --- | --- |
| A oes gan y Cyngor strategaeth glir ar gyfer ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor? | • Mae'r Cyngor wedi nodi'n glir ei ddull strategol o gefnogi ei gydnerthedd ariannol dros y tymor byr, canolig a hir.<br>• Mae gan y Cyngor gynllun ariannol tymor canolig.<br>• Mae dull strategol y Cyngor yn cael ei ddeall a'i gefnogi'n eang gan uwch swyddogion.<br>• Mae'r Cyngor wedi ystyried ystod eang o opsiynau i wella ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor, gan gynnwys cymharu â chyrff eraill.<br>• Mae'r Cyngor wedi nodi'r holl arbedion y mae'n bwriadu eu gwneud i gwrdd â'i fwlch cyllido dros y tymor canolig, gyda chefnogaeth cynlluniau â thystiolaeth dda yn seiliedig ar ragdybiaethau rhesymol.<br>• Mae strategaeth y Cyngor yn cynnwys y defnydd strategol o gronfeydd wrth gefn i reoli ei raglen arbedion dros y tymor canolig.<br>• Mae'r Cyngor wedi modelu effaith ddisgwyliedig ei strategaeth ariannol dros y tymor canolig (e.e. gostyngiadau posibl mewn gwasanaethau a lefelau'r dreth gyngor ar gymunedau lleol). |
| A yw strategaeth ariannol y Cyngor yn cael ei chefnogi gan ddealltwriaeth glir o'i sefyllfa ariannol? | • Mae'r Cyngor wedi cyfrifo ei fwlch cyllido dros y tymor byr i'r tymor canolig yn seiliedig ar ragdybiaethau rhesymol.<br>• Mae'r Cyngor wedi meincnodi ei ragdybiaethau gyda chyrff cymharol priodol.<br>• Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i bwysau cyllideb allweddol yn y tymor canolig a'r tymor hir.<br>• Mae gan y Cyngor hanes o fynd i'r afael â phwysau cyllideb allweddol yn llwyddiannus.<br>• Mae'r Cyngor wedi nodi'r risgiau allweddol i'w gynaliadwyedd ariannol ac wedi rhoi mesurau lliniaru ar waith. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Meini prawf |
|---|---|
| A yw trefniadau adrodd y Cyngor yn cefnogi goruchwylio ei gynaliadwyedd ariannol yn rheolaidd? | • Mae'n amlwg pwy sy'n gyfrifol am fonitro sefyllfa ariannol y Cyngor, gan gynnwys ei gynaliadwyedd dros y tymor canolig i'r tymor hir.<br>• Mae'r Cyngor yn adrodd ei sefyllfa ariannol yn rheolaidd i aelodau er mwyn galluogi goruchwylio a chraffu.<br>• Mae gan y Cyngor drefniadau i adrodd yn dryloyw effaith/effaith ddisgwyliedig ei strategaeth ariannol ar gyflawni ei amcanion corfforaethol ac ar gymunedau lleol i aelodau a rhanddeiliaid eraill.<br>• Mae cynllun arbedion y Cyngor yn cynnwys yr hyn y cytunwyd arno, faint o gynnydd sydd wedi'i wneud wrth weithredu, a chysylltiadau â'i gyllideb a'i gynllun ariannol tymor canolig.<br>• Mae'r Cyngor yn adrodd yn rheolaidd am gynnydd o ran cyflawni arbedion arfaethedig i aelodau er mwyn galluogi goruchwylio a chraffu. |

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd CF10 4BZ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.